**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1360
Ein cyf/Our ref MA/LW/02014/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

30 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Medi ynghylch deiseb P-06-1360 Adeiladu slipffordd syml rhwng yr M48 tua'r gorllewin a'r M4 tua'r dwyrain yn Rogiet.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno slipffordd yn y lleoliad hwn, ac mae'n annhebygol y byddai cynllun o'r math hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid o dan ein profion adeiladu ffyrdd yn y dyfodol a nodir yn ein hymateb i'r Adolygiad Ffyrdd.

Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn y byddwn yn dal i fuddsoddi mewn ffyrdd. Fodd bynnag, rydym yn codi'r safon ar gyfer sefyllfaoedd lle mai ffyrdd newydd yw'r ymateb cywir i broblemau trafnidiaeth. Fel y mae'r Adolygiad Ffyrdd yn ei nodi, mae ffordd y gofynnwyd amdani i leddfu tagfeydd yn aml yn arwain at draffig ychwanegol, sydd mewn amser yn dod â galwadau pellach am lonydd ychwanegol, cyffyrdd ehangach a mwy o ffyrdd. Rydym yn troi mewn cylchoedd, gan allyrru mwy a mwy o garbon wrth inni wneud hynny ac ni fyddwn yn cyrraedd Sero Net oni bai ein bod yn rhoi'r gorau i wneud yr un peth drosodd a throsodd.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf (2022-27) wedi’u nodi yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWTC) hefyd i ystyried y problemau, y cyfleoedd, yr heriau a'r amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd yn Ne-ddwyrain Cymru. Yn ei adroddiad Casgliadau Newydd, cadarnhaodd SEWTC mai'r prif achos am dagfeydd ar yr M4, o bell ffordd, yw nifer y cerbydau sy'n defnyddio'r ffordd ar adegau penodol o'r dydd.

Cafodd 58 argymhelliad y Comisiwn i fynd i'r afael â thagfeydd eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2021. Mae'r argymhellion yn cyd-fynd yn agos â'n strategaeth drafnidiaeth, Llwybr Newydd. Rhwydweithiau trafnidiaeth integredig, carbon isel ac amlfoddol fydd dyfodol trafnidiaeth Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Uned Cyflawni Burns  sydd â'r dasg o gyflawni argymhellion y Comisiwn yn llunio Adroddiadau Blynyddol, gan nodi eu cynnydd yn erbyn mesurau tymor byr, canolig a hir.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Trafnidiaeth Cymru yn ymgynghori ar eu cynlluniau ar gyfer gorsafoedd newydd rhwng Caerdydd Canolog a Chyffordd Twnnel Hafren, a chynigion gwasanaeth trên newydd.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change